



The Open
University
Y Brifysgol
Agored

WALES CYMRU

Rita



Doeddwn i ddim yn gwybod llawer o gwbl am Adnoddau Addysgol Agored. Roedd fy mhrofiad yn ymestyn cyn belled â chwilio am ddelweddau ar Google a dim llawer mwy na hynny, er fy mod i a'm ffrindiau'n cyfnewid pethau rydyn ni wedi dod o hyd iddynt ar y rhyngwrdd sydd wedi dod yn ddefnyddiol wrth i ni addysgu, felly am wn i, mewn ffordd, OER yw'r rheiny, i ryw raddau.

Rydw i wedi dod o hyd i rai deunyddiau gwych wrth ymweld â rhai o'r storfeydd OER. Rydw i wedi lawrlwytho swm eithaf mawr o adnoddau! Mae'n mynd i gymryd amser hir i mi fynd trwy bopeth rydw i wedi'i lawrlwytho, ond rydw i eisoes yn sicr bod yno ddeunyddiau a fydd yn arbed llawer o amser ac ymdrech i mi pan fyddaf yn mynd ati i greu fy neunyddiau addysgu ar-lein.

Rwy'n credu fy mod i'n deall cysyniad trwyddedau Creative Commons, felly fe ddylwn i allu gweld yn rhwydd os gallaf ailddefnyddio'r pethau y deuf ar eu traws ai peidio. Mae'n dda gwybod fy mod yn defnyddio gwaith pobl eraill mewn ffordd briodol, a bod fy nysgwyr hefyd yn gallu defnyddio'r adnoddau rhad ac am ddim hyn.

Doeddwn i erioed wedi dychmygu y gallai fy neunyddiau i fod yn ddefnyddiol i bobl eraill, ond rydw i wedi penderfynu ceisio rhannu. Rwy'n bwriadu cyflwyno fy nghwrs unwaith, i un garfan, ac yna gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol iddo ar ôl cael adborth gan y garfan gyntaf o ddysgwyr. Ar ôl gwneud hynny, byddaf yn cymhwysio trwyddedau Creative Commons i'm gwaith a'i rannu. Mae'r syniad yn codi ofn arnaf, ond rwy'n credu y dylwn i wneud ymdrech i gyfrannu rhywbeth wedi i mi ddefnyddio adnoddau a rannwyd gan bobl eraill.